Treiglo (1)

Y TREIGLAD MEDDAL: Dyma sut mae'r llythrennau yn newid:

p	t	c	b	d	g	ll	rh
⇓	⇓	⇓	⇓	⇓	⇓	⇓	⇓
b	d	g	f	dd	-	l	r

1. Treiglad meddal ar ôl <u>arddodiaid</u> - y geiriau bach yma:

am	ar	at	gan	dros	drwy	wrth	dan	heb	hyd	i	o

e.e. am fynd, wrth feddwl, o Fangor, heb feddwl, i weld, o Fryncoch, am le

2. Treiglad meddal ar ôl <u>dau</u> a <u>dwy:</u>

e.e.

dau lew	dwy gath
dau ddrws	dwy ddynes
dau ddyn	dwy ffenest



dwy gath

3. Treiglad meddal ar ôl <u>ei</u> (fe/fo)

e.e.

ei ben	ei drwyn	ei geg
ei fol	ei ddannedd	ei ên
ei law	ei raw	ei fam

4. <u>Enw</u>'n treiglo'n feddal ar ôl <u>yn</u>:

e.e.

yn ddyn	yn fachgen	yn berson

5. Ansoddair (gair disgrifio) yn treiglo'n feddal ar ôl yn:

e.g.

yn dda (ansoddair)	yn ddrwg
yn brysur	Mae'n denau

NID YW BERFENW YN TREIGLO AR ÔL YN: yn canu, yn gwylio



Treiglo 2

Y TREIGLAD TRWYNOL: Dyma sut mae'r llythrennau yn newid:

p	t	c	b	d	g
⇓	⇓	⇓	⇓	⇓	⇓
mh	nh	ngh	m	n	ng

1. Treiglad trwynol ar ôl fy:

fy + p	fy mhen
fy + t	fy nhrwyn
fy + c	fy ngheg
fy + b	fy mola
fy + d	fy nannedd
fy + g	fy ngwallt

fy mhen

fy nannedd

SYLWCH - Dydy fy ddim yn newid!
(Fy'm, fyng, fyn, yn ANGHYWIR)

2. Treiglad trwynol mewn enw lle ar ôl yn:

yn + lle yn cychwyn gyda 'p'	>	ym Mhenrhyncoch, ym mharc
yn + lle yn cychwyn gyda 't'	>	yn Nhregaron, yn nhŷ
yn + lle yn cychwyn gyda 'c'	>	yng Nghaerdydd, yng ngheg
yn + lle yn cychwyn gyda 'b'	>	ym Mangor, ym mlaen y dosbarth
yn + lle yn cychwyn gyda 'd'	>	yn Nihewyd, yn nosbarth
yn + lle yn cychwyn gyda 'g'	>	yng Ngwynedd, yng ngardd



Treiglo 3

Y TREIGLAD LLAES:
Dyma sut mae'r llythrennau yn newid:

p	**t**	**c**
⇓	⇓	⇓
ph	**th**	**ch**

1. Treiglad llaes ar ôl ei (hi):



e.e.
Ei phen
Ei thrwyn
Ei cheg
Mae Elen yn cael ei phen-blwydd heddiw.

ei cheg

2. Treiglad llaes ar ôl: 'i, 'w (hi):



e.e
Gyda'i thad
Aeth Elen i'w phwrs i nôl ei harian.

Aeth Elen i'w phwrs i nôl ei harian cinio.

3. Sylwch bod (h) o flaen llafariad ar ôl ei (benywaidd):
ei **h**arian hi (ei **h**ewythr hi; ei **h**enw hi); **ar ôl ein**: ein **h**ysgol ni; **ar ôl eu**: eu **h**aberth nhw.

Mae ei mam (<u>nid EI MHAM</u>) yn cael ei phen-blwydd heddiw.